University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# GWEITHDREFN AR GYFER CAM 2: YMCHWILIADAU I GAMYMDDYGIAD MYFYRWYR AC ADDASRWYDD I YMARFER

1. Rydym yn cydnabod y gallai honiad o gamymddwyn beri straen a gofid. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan:

    - Undeb y Myfyrwyr - https://www.uswsu.com/academic
    - Gwasanaethau Myfyrwyr - https://www.southwales.ac.uk/cy/myfyrwyr-presennol/ardal-gynghori/
    - Y Gaplaniaeth - https://www.southwales.ac.uk/cy/gwasanaethau/y-gaplaniaeth/

2. Mae rhestr o enghreifftiau ***anghyflawn*** o gamymddwyn posibl wedi'u cynnwys yng Nghod Ymddygiad y Myfyrwyr ac yn y Rheoliadau Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer.

3. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ar y cyd â'r Gyfadran yn penderfynu a ddylid rheoli honiad o dorri Cod Ymddygiad y Myfyrwyr gan ddefnyddio'r Weithdrefn ar gyfer Cam 1: Camymddwyn Myfyrwyr Llai Difrifol, neu a yw ymchwiliad ffurfiol o dan y Weithdrefn hon ar gyfer Ymchwiliadau yn briodol.

4. Lle ystyrir bod ymchwiliad yn briodol, bydd y Brifysgol yn dechrau'r broses hon cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn yr honiad.

5. Diben ymchwiliad yw sefydlu ffeithiau'r mater, casglu ac ystyried tystiolaeth a phenderfynu a oes achos i'w ateb.

6. Os yw'r honiad wedi'i wneud yn erbyn grŵp o fyfyrwyr, a bod penderfyniad wedi'i wneud y bydd yr achos yn cael ei ystyried fel grŵp, rhoddir cyfle i bob myfyriwr gyfarfod â'r Swyddog Ymchwilio. Bydd pob myfyriwr yn cael copi o'r dystiolaeth i'w hystyried a bydd yr holl amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Pan fydd Pwyllgor Disgyblu neu Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn gwrando ar bob achos yn unigol, bydd aelodau'r Pwyllgor yr un fath ar gyfer pob gwrandawiad.

7. Bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Mewn achosion difrifol a/neu gymhleth, bydd y Swyddog Ymchwilio yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Os oes angen Swyddog Ymchwilio o'r gyfadran neu faes gwasanaethau proffesiynol, fel arfer bydd o'r tu allan i'r maes pwnc lle bo'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn astudio ac ni fydd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol allanol i'r Brifysgol. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod yn ysgrifenedig am fanylion yr honiad, a phwy yw'r Swyddog Ymchwilio.

8. Bydd honiad(au) newydd neu ddiwygiedig a wneir, neu a ddaw i'r amlwg, yn ystod ymchwiliad yn cael eu cyfleu i'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn ysgrifenedig. Rhoddir cyfle iddyn nhw wneud sylwadau ar yr honiad(au) newydd/diwygiedig a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu rhannu gyda phob parti perthnasol.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i'r Brifysgol rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hyn yn angenrheidiol i amddiffyn y Myfyriwr sy'n Ymateb, y Blaid sy'n Adrodd, neu eraill rhag niwed, neu i atal trosedd rhag digwydd.

9. Pan gyflwynir gwrth-honiadau gan Fyfyriwr sy'n Ymateb, fel arfer cânt eu harchwilio drwy'r un ymchwiliad, gan yr un Swyddog Ymchwilio. Pan fo'n briodol i benodi Swyddog Ymchwilio ar wahân i ymchwilio i'r gwrth-honiadau, y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yn penderfynu hyn.

10. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn anelu at gwblhau ei ymchwiliad o fewn 30 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn yr amserlen hon mewn cytundeb â'r gan Fyfyriwr sy'n Ymateb neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael diweddariad am unrhyw oedi yn y broses.

11. Fel arfer, bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael eich cyfweld fel rhan o'r ymchwiliad. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu pwy i'w gyfweld ac ym mha drefn.

12. Ni all Myfyrwyr danfon unrhyw unigolyn arall i'r cyfweliad ar ei rhan. Fodd bynnag, caniateir iddyn nhw gael unigolyn cymorth gyda nhw mewn unrhyw gyfarfodydd; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff o'r Gaplaniaeth, neu ffrind. Rôl unigolyn cymorth yw bod yno i'r myfyriwr yn ystod y cyfarfod fel presenoldeb cefnogol. Nid ei rôl yw cynrychioli'r myfyriwr, pleidio ar ei rhan na siarad ar ei rhan, oni bai bod hyn wedi'i gytuno fel addasiad rhesymol.

13. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Brifysgol o enw, statws a manylion cyswllt yr unigolyn sy'n dod gyda nhw.

14. Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb unigolyn cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r unigolyn enwebedig, ac yn yr achos hwnnw, rhoddir cyfle i'r myfyriwr enwebu unigolyn cymorth gwahanol.

15. Nid yw Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur; fodd bynnag, gall myfyrwyr ceisio cyngor rhagarweiniol heb ragfarn.

16. Er nad oes hawl awtomatig gan fyfyrwyr i gael unigolyn cymorth neu gynrychiolydd cymwys yn gyfreithiol o dan y Weithdrefn hon, os hoffir myfyrwyr gael ei chefnogi/cynrychioli, gwelir Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol <https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/ymddygiad-myfyrwyr/> am ragor o wybodaeth.

17. Cynhelir unrhyw gyfarfodydd naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig, er enghraifft ar Teams. Bydd recordiadau fideo neu sain yn cael eu cymryd a'u defnyddio gan y Swyddog Ymchwilio i gynhyrchu ei adroddiad. Cedwir recordiadau am hyd weithdrefnau mewnol y Brifysgol ac, os oes angen, drwy gydol yr amserlen ar gyfer y cais am adolygiad ac ystyriaeth o achos gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch.

18. Gall y Myfyriwr sy'n Ymateb gofyn am gopi o recordiad; fodd bynnag, bydd unrhyw recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig heb awdurdod yn cael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu.

19. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes angen iddo gyfweld ag unrhyw dystion a nodwyd gan y Parti sy'n Adrodd neu'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddo ddatgelu manylion yr achos dan sylw i'r tyst ond bydd yn gofyn iddo gynnal cyfrinachedd.

20. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, cyflwynir adroddiad y Swyddog Ymchwilio i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai).

21. Os bydd enwebai'r Deon yn penderfynu nad oes unrhyw honiadau'n cael eu cadarnhau, caiff yr achos ei gau. Fel arall, gwneir penderfyniad ynghylch y canlynol:

    a. a ddylid gweithredu sancsiwn cam 1; neu,

    b. a ddylid atgyfeirio'r achos at wrandawiad.

22. Pan atgyfeirir yr achos at wrandawiad, gallai hwn fod yn Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol neu, os ydy'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn astudio cwrs sy'n arwain at gofrestru proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol, y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Bydd y Myfyriwr sy'n Ymateb yn derbyn copi o adroddiad y Swyddog Ymchwilio a llythyr gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cadarnhau beth fydd yn digwydd nesaf. Y Weithdrefn a ddilynir yw'r Weithdrefn ar gyfer Cam 2: Gwrandawiadau y Pwyllgor <https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/ymddygiad-myfyrwyr/>.

23. Gall myfyrwyr gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol, os rydym yn credu bod achos wedi effeithio ar eu hastudiaethau academaidd. Ni fydd angen iddynt ddatgelu manylion yr honiad(au) yn ei erbyn oherwydd fe all yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ddarparu llythyr i gefnogi'r cais.

24. Pan fo iechyd corfforol neu feddyliol myfyriwr yn effeithio'n uniongyrchol ar ei ymddygiad, a bod ymchwiliad yn tynnu sylw at yr angen i gyfeirio at y Weithdrefn Cymorth i Astudio, yna bydd yr achos yn destun atgyfeiriad yn unol â hynny.